Gohirio Cymanfa Gyffredinol 2020

Annwyl gyfeillion

Rhaid cydnabod ein bod mewn cyfnod annisgwyl ag eithriadol a mae hynny'n gofyn am benderfyniadau anghyffredin wrth ymateb yn rhesymol i'r cyfyngiadau presennol.
Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'n holl swyddogion am sicrhau fod ein ymateb fel Cyfundeb yn amserol ac effeithiol, ac yn falch bod ein eglwysi wedi derbyn yr arweiniad.

Yn wyneb her ein dyddiau ni ddaw y nodyn cysylltiedig am ohirio ein Cymanfa Gyffredinol yn annisgwyl i chi dwi'n siŵr. Sylwch, fel llawer i fudiad arall, ein bod yn cadw at yr un trefniadau ymarferol gan eu taflu ymlaen am flwyddyn.

Yn ddigon naturiol mae gan hyn effaith ar ein gweinyddiaeth ac i sicrhau ein bod yn cadw o fewn disgwyliadau cyfraith gwlad rydym yn rhagweld bydd gofyn trefnu rhyw gyfarfod llai ei hyd na'r arfer yn yr Hydref eleni i gytuno ar y pethau angenrheidiol.

Gyda diolch am eich dyfalbarhad mewn ffydd, a gobaith y down trwy'r cyfnod hwn yn weision cryfach i'r Ceidwad sydd bob amser yn ein cynnal trwy Ei gariad.

Adjournment of the 2020 General Assembly

Dear friends

We must acknowledge that we are in an unexpected an exceptional period and that asks for unusual decisions as we respond reasonably to the current limitations. I am immensely grateful to the General Secretary and all the officers for ensuring that our response as a Connexion has been timely and effective, and am grateful that our churches have accepted the direction given.

In the face of challenging times the attached note concerning the adjournment of our General Assembly will, I'm sure, come as no surprise. Note, in common with other organisations, that we are keeping to the practical arrangements and simply moving them forward by a year.

Naturally this has an impact on our administration and to ensure that we meet the expectations of the law of the land we forsee that it will be necessary to arrange a shorter than usual meeting in the Autumn to agree the necessary matters.

With thanks for your perseverance in faith, and the hope that we emerge from this period as stronger servants of the Saviour who always sustains us through His love.

Yr eiddoch yn Ei wasanaeth / *Yours in His Service*

Marcus
Llywydd / Moderator